Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 291

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** Cydweithrediad Academaidd gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cydweithio

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), mewn trafodaeth ag Is-ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, wedi mynegi awydd i beilota swydd gydweithredol i wella'r ymagwedd tuag at Blismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.
Mae CHTh a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ill dau wedi mynegi eu parodrwydd i gyfrannu £25,000 yr un y flwyddyn ar gyfer cynllun peilot dwy flynedd. Rhagwelir y bydd hyn yn cefnogi cyflogi un aelod staff heddlu gradd G fel Cydlynydd Ymchwil Plismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth. Ei waith fydd gwella partneriaethau rhwng sefydliadau academaidd lleol ac adrannau allweddol HDP megis Dysgu a Datblygu, Perfformiad a Dadansoddeg, y Ganolfan Atal Ganolog a Swyddfa CHTh.
Y nod yw trosi ymchwil lleol yn arfer lleol, gan ymgorffori plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhlismona gweithredol o ddydd i ddydd drwy hyfforddiant, datrys problemau a phrosiectau.
Y nod hirdymor yw sefydlu canolfan rithwir plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ardal HDP.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yn penodi Cydlynydd Ymchwil Plismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth o 1 Medi 2023 am gyfnod peilot penodol o ddwy flynedd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.
Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 29/06/2023**

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## SUMMARY DECISION SHEET

**Purpose:** Commissioner Decision – Ref.DLl 291

**Timing:** Routine

**Title:** Academic Collaboration with University of Wales Trinity Saint David

**Category of Decision / Business Area Impact:** Collaboration

**Executive Summary:**

The Police and Crime Commissioner (PCC), in discussion with the Vice Chancellor of the University of Wales Trinity Saint David (UWTSD), has expressed a desire to pilot a collaborative post to enhance the approach to Evidence-Based Policing in the Dyfed-Powys Police area.

Both the PCC and UWTSD have indicated their willingness to contribute £25,000 each per year for a two-year pilot. It is envisaged that this will support the employment of one grade G police staff member as an Evidence-Based Policing Research Coordinator. Their role will be to enhance partnerships between local academic institutions and key DPP departments such as Learning and Development, Performance and Analytics, the Central Prevention Hub and the PCC's Office.

The aim is to translate local research into local practice, embedding EBP into day-to-day operational policing through training, problem-solving and projects.

The long-term aspiration is for the establishment of a virtual EBP centre in the DPP area.

**Recommendation:**
That the PCC, in collaboration with the University of Wales Trinity Saint David, appoints an Evidence-Based Policing Research Coordinator from 1st September 2023 for a fixed pilot period of two years.

**Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys**
I confirm I have considered whether or not I have any personal or prejudicial interest in this matter and take the proposed decision in compliance with the Nolan Principles for Conduct in Public Life.
The above request has my approval.

**Signature:** Dafydd Llywelyn **Date: 29/06/2023**